FFYDD, GOBAITH a CHARIAD

Tri phen y grefydd Gristnogol yw Ffydd, Gobaith, Cariad. Nid rhai o addurniadau'r bywyd crefyddol ydynt, ond ei hanfodion. Rhaid ei meddu. Y mae i bob un ohonynt ei briod waith.

Derbyn y mae Ffydd. Ni all Ffydd wneud dim ohoni ei hun, nid yw yn rhinwedd nac yn weithred; agwedd oddefol, dderbyngar yr enaid ydyw. Llaw wag yw Ffydd a estynnir allan gennym i dderbyn rhoddion Duw. Ein parodrwydd i dderbyn sy'n penderfynu faint a gawn.

Disgwyl y mae Gobaith. 'Heddiw' yw gair mawr Ffydd. 'Yfory' yw gair mawr 'Gobaith'. Byw yn y presennol y mae Ffydd; byw yn y dyfodol y mae Gobaith, disgwyl ac edrych ymlaen. Gobaith sy'n goleuo'r dyfodol. Ffydd yw sail Gobaith. Oni bai fod Ffydd yn derbyn heddiw, fyddai gan Obaith ddim i'w ddisgwyl yfory. Derbyn rhoddion Duw mae Ffydd; disgwyl wrth ei addewidion y mae Gobaith.

Rhoi y mae Cariad. Rhoi yw anian Cariad. Ffydd a Gobaith sy'n cyfoethogi ein bywyd. Cariad a dry'r cyfoeth yn fendith i eraill. I'r graddau y mae Ffydd yn derbyn, y mae Cariad yn gall cyfrannu. Casglu'r cynhaeaf i'w ysgubor mae Ffydd; ei droi'n fara beunyddiol i'r byd y mae Cariad.

GWEDDI:

Arglwydd, gwna fi'n offeryn dy dangnefedd:
lle mae casineb, boed i mi hau cariad;
lle mae niwed, pardwn;
lle mae amheuaeth, ffydd;
lle mae digalondid, gobaith;
lle mae tywyllwch, goleuni;
lle mae tristwch, llawenydd;
O Feistr Dwyfol, caniatâ fy mod nid yn gymaint yn ceisio cysur ond ei roi;
nid yn gymaint yn dymuno cael fy neall ond ceisio deall;
nid yn gymaint yn dymuno cael fy ngharu ond rhoi cariad,
oherwydd wrth roi y derbyniwn; wrth faddau y derbyniwn faddeuant,
ac wrth farw y deffrown i fywyd tragwyddol.

Francis o Assisi, 1181 - 1226